## Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 5

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** Dydd Gwener, 3 Chwefror 2023

**Yn bresennol:**
**Cadeirydd:** Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

**Aelodau:** Matt Downie (Crisis), Liz Davies CB (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Angela Bowen (Cyngor Sir Gâr), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Nazia Azad (Tai Pawb), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru), Huw Charles (Llywodraeth Cymru).

**Hefyd yn bresennol:** Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis), Debbie Thomas (Crisis).

**Ymddiheuriadau:** Sam Parry (Cyngor Conwy).

1. **Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Panel i bumed cyfarfod y Panel Adolygu Arbenigol. Diolchodd i'r Panel am baratoi a darllen y papurau cyn y cyfarfod.

Eglurodd y Cadeirydd mai fformat y cyfarfod fyddai gweithio drwy'r papur argymhellion, gan drafod pob adran yn ei thro. Yn ystod y drafodaeth ar bob maes, byddai'r Panel yn ystyried y dystiolaeth yn ogystal â barn y rhanddeiliaid, sy'n cynnwys Arbenigwyr drwy Brofiad, gweithwyr rheng flaen, Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai.

Dywedodd y Cadeirydd mai nod y cyfarfod fyddai myfyrio ar argymhellion a oedd wedi'u cynnig yn flaenorol, gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ynglŷn â pha argymhellion i fwrw ymlaen â hwy. Cydnabyddid y gellid cyfaddawdu rhywfaint, ond y byddai'r grŵp yn ceisio symud ymlaen ar sail consensws cyffredinol. Os na ellid dod i gytundeb, byddai hynny'n cael ei nodi.

Nodwyd ei bod yn bosibl y byddai angen rhagor o waith ar rai o'r materion technegol yn yr argymhellion yn dilyn y penderfyniadau a wnaethpwyd heddiw.

2. **Cytuno ar argymhellion yn ymwneud â dyletswyddau atal a lliniaru**

Mae'r maes trafodaeth hwn yn cynnwys:
- Camau rhesymol
- Methu â chydweithredu
- Ymestyn y ddyletswydd 56 diwrnod i gynorthwyo
- Cymorth i gadw llety (meysydd posibl eraill ar gyfer deddfwriaeth)

**<u>Atal – camau rhesymol</u>**

Adolygodd y grŵp yr argymhellion posibl a ganlyn.
***1. Cryfhau "camau rhesymol" drwy:***
- ***a)*** *Addasu'r term "cymorth i sicrhau." Gallai datganiadau amgen gynnwys:*

*i. "cymryd camau sy'n debygol o atal y ceisydd rhag bod yn ddigartref a/neu sy'n debygol o sicrhau llety i'r ceisydd";*

*neu*

*ii. "cymryd camau rhesymol i atal y ceisydd rhag bod yn ddigartref a/neu sicrhau llety ar gyfer y ceisydd".*

*a*

***b)*** *Mabwysiadu dull tebyg i ddeddfwriaeth Lloegr a chynnwys asesiad o angen yn y ddeddf, gan nodi bod rhaid drafftio Cynllun Tai Personol ar sail yr asesiad hwnnw o angen. Mae'r Cynllun Tai Personol yn amlinellu'r camau rhesymol y bydd Awdurdod Lleol yn eu cymryd.*

*a*

***c)*** *Diwygio'r ddyletswydd liniaru yn neddfwriaeth bresennol Cymru, sy'n dod i ben ar ôl 56 diwrnod. Gellid diwygio'r ddyletswydd hon fel ei bod yn dod i ben dim ond lle mae awdurdodau wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol a bod 56 diwrnod wedi mynd heibio.*

*a*

***d)*** *Gellid cael hawliau i ofyn am adolygiad o:*

*i. Y camau rhesymol sydd i'w cymryd;*

*ii. O bosibl, unrhyw gamau y cynghorir y ceisydd i'w cymryd;*

*iii. A yw'r camau'n cael eu cymryd wrth gyflawni'r ddyletswydd atal neu liniaru.*

***2. Gwella gorfodaeth camau rhesymol drwy:***

***a)*** *Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu ceiswyr yn ysgrifenedig ynglŷn â'r camau rhesymol.*

*a*

***b)*** *Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu ceiswyr ynglŷn â'u hawl i apelio.*

*a*

***c)*** *Darparu ar gyfer yr hawl i apelio ynglŷn â chamau rhesymol yn ystod y ddyletswydd ac ar ôl i'r ddyletswydd ddod i ben.*

*Yn ogystal*

***d)*** *Caniatáu ar gyfer apêl os na roddir camau rhesymol.*

*a*

***e)*** *Caniatáu ar gyfer y cyfle i wneud cais am adolygiad ar y sail nad yw'r camau rhesymol yn cael eu cymryd.*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- O ran argymhelliad 1a, dywedodd aelod o'r Panel fod yn well ganddo eiriad 1ai, oherwydd bod y geiriau "camau sy'n debygol o atal" yn llai agored i'w dehongli na "rhesymol" ac yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Roedd aelodau eraill y Panel yn cytuno.
- Gofynnodd aelod o'r Panel a ellid rhoi mwy o bwyslais ar y ddyletswydd gydraddoldeb, fel bod camau rhesymol yn ystyried anghenion cydraddoldeb. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gymwys yn awtomatig, ond ei bod yn bosibl ystyried sut y gellid cyfeirio ati yn y ddeddfwriaeth hon er mwyn ei thanlinellu. Dewis arall fyddai ceisio gwneud hyn yn y Cod. Opsiwn arall yw bod yr hysbysu ynglŷn â chamau rhesymol yn 2a yn cynnwys amlinelliad o sut y mae'r ALl wedi ystyried cydraddoldeb wrth benderfynu ynglŷn â'i gamau rhesymol.
- Codwyd y pwynt bod problem sylfaenol ag adnoddau mewn ALlau, a bod angen i'r adroddiad fod yn glir ynglŷn â hynny. Roedd aelodau'r Panel yn cytuno bod angen adran glir ar ddechrau'r adroddiad terfynol sy'n nodi rhestr o "ffactorau galluogol" ar gyfer yr argymhellion – dylid nodi'r angen am fwy o adnoddau yn glir fel ffactor galluogol yn y modd hwn.
- Pwysleisiwyd y dylai'r adroddiad amlinellu'n glir bod angen symud tuag at weithio mewn partneriaeth a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- Dywedodd aelod o'r Panel mai bwriad Cynlluniau Tai Personol yw sicrhau bod ceiswyr yn cael eu cynnwys a'u bod yn ganolog i'r trafodaethau ynglŷn â'u hanghenion llety. Er hyn, mae perygl y bydd y cynlluniau hyn yn cael eu defnyddio i roi dyletswyddau ar y ceiswyr eu hunain, fel y nodir mewn ymchwil PhD. Mae angen i ganllawiau ategol ddiogelu rhag hyn a sicrhau na roddir camau rhesymol i'r ceisydd eu cymryd.
- Trafodwyd yr angen am ddyletswydd i adolygu a diweddaru Cynlluniau Tai Personol yn rheolaidd er mwyn rhoi gwybodaeth i'r unigolyn, a bydd yn cael ei ystyried ymhellach.
- Codwyd yr angen i ystyried a yw adborth gan awdurdodau lleol yn rhy gymhleth a chyfeiriwyd at fiwrocratiaeth.
- Teimlai aelodau'r Panel fod argymhelliad d(iii) yn bwysig. Gofynnwyd a allai canllawiau statudol wneud y pwynt hwn yn gryfach fyth er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym.

**Cytunwyd ar y canlynol:**
Bwrw ymlaen â'r gwaith o wneud argymhellion 1ai, 1b, 1c, 1d, 2a, 2b, 2c, 2d a 2e ar gyfer camau rhesymol.

Ystyried ymhellach:
- Beth yw'r ffordd orau o bwysleisio pwysigrwydd cymhwyso'r Ddeddf cydraddoldeb mewn "camau rhesymol".
- A ellid adolygu'r Cynllun Tai Personol yn rheolaidd.
- A ellid cryfhau 1diii ymhellach, mewn canllawiau statudol efallai, er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym.

Mewn cysylltiad â'r argymhellion hyn, dylai'r adroddiad terfynol hefyd gynnwys y canlynol:
- Pwyslais ar weithio mewn partneriaeth.
- Pwyslais ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Liz Davies CB | Meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol arnynt:<br>• Ystyried sut i atgyfnerthu anghenion cydraddoldeb yn y camau rhesymol.<br>• A ellid adolygu'r Cynllun Tai Personol yn rheolaidd.<br>• A ellid cryfhau 1diii ymhellach, mewn canllawiau statudol efallai, er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym. | I'w chadarnhau |

**Atal – methu â chydweithredu**
Adolygodd y grŵp yr argymhellion posibl canlynol:

1. *Diddymu'r cymal methu â chydweithredu* ***(yn cael ei ddangos fel yr opsiwn posibl a ffefrir ar sail trafodaeth flaenorol y Panel).***
2. *Yn ogystal â'r argymhelliad uchod gellid cael argymhelliad ar sicrhau bod canllawiau statudol yn pwysleisio'r angen i fodloni gofynion cymorth/mynediad ceisydd er mwyn iddo allu ymgysylltu'n llawn a deall y system.*

   *Neu:*
3. *Os na wneir argymhelliad i ddiddymu'r cymal methu â chydweithredu, diwygio'r ddarpariaeth drwy:*

1. *Newid y diffiniad i "yn fwriadol, a hynny mewn modd afresymol" fel na ellir cymryd bod ceisydd yn methu â chydweithredu oni bai nad yw'n ymgysylltu ag unrhyw rai o'r camau rhesymol a amlinellir mewn Cynllun Tai Personol neu a hysbysir wrtho.*
2. *Yn yr un modd â Deddf Lloegr, sicrhau bod dyletswydd i ganfod llety i'r rhai sydd ag angen blaenoriaethol o hyd (er bod hynny am gyfnod byrrach) hyd yn oed os bernir eu bod yn methu â chydweithredu.*
3. *Defnyddio canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth i gryfhau ymwybyddiaeth bod yn rhaid ystyried a yw gofynion mynediad ceisydd yn cael eu bodloni cyn cymhwyso'r cymal methu â chydweithredu. Os nad yw gofynion mynediad yn cael eu bodloni, rhaid gwneud addasiadau rhesymol yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.*
4. *Darparu canllawiau statudol manylach ar ddehongli'r cymal methu â chydweithredu. Er enghraifft, dylai hyn egluro na ddylid cymryd bod ceisydd yn methu â chydweithredu os oes ganddo reswm hyfyw dros wrthod llety.*

**4.** *Wrth fynd heibio, er mwyn helpu i liniaru pryder y gallai materion hygyrchedd arwain at ddefnydd annheg o'r cymal "methu â chydweithredu", gellid ystyried argymhellion yr Ombwdsmon ar gyfer gwella hygyrchedd y system dai â'r defnydd o ddogfennau safonedig ac adolygiad o'r Cod Canllawiau er mwyn sicrhau ei bod yn glir bod yn rhaid ystyried hawliau dynol a chydraddoldeb wrth asesu ceisiadau digartrefedd, adolygu penderfyniadau a dyrannu tai.*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Dywedodd aelod o'r Panel y gallai unigolion gael eu hystyried yn rhai 'nad ydynt yn cydweithredu' pan mae eu diffyg cydweithrediad tybiedig, yn ymarferol, yn deillio o'r ffaith nad ydynt yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Roedd rhai aelodau o'r Panel hefyd yn teimlo y gallai cadw'r cymal methu â chydweithredu arwain at wahaniaethu (e.e. gallai diffyg cydweithredu tybiedig ddeillio o'r ffaith nad yw angen cyfathrebu ceisydd yn cael ei ddiwallu).
- Roedd aelodau eraill o'r Panel yn cytuno ac yn teimlo bod cryn dipyn o dystiolaeth gan arbenigwyr drwy brofiad yn awgrymu nad yw'r system bresennol yn seiliedig ar drawma nac wedi'i harfogi i ystyried cymhlethdodau anghenion unigryw unigolion. Roedd yr aelodau hyn o'r Panel yn teimlo bod y cymal "methu â chydweithredu" yn cyfrannu tuag at hyn a'i fod yn atal newid i ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gofyn am feirniadaeth.
- Teimlai rhai aelodau o'r Panel fod bodolaeth y cymal yn awgrymu "disgyblu" pobl ddigartref, a theimlent y byddai ei ddiddymu yn arwydd clir o newid diwylliannol tuag at ddull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.
- Dywedodd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol mai yn anaml iawn y defnyddir y cymal hwn yn ymarferol.
- Teimlai eraill, er mai'n anaml iawn yr oedd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ffurfiol, y gellir ystyried bodolaeth y cymal fel "ffon" neu gyfeirio ato yn gynharach yn y broses fel ffordd o roi pwysau ar geiswyr.
- Dywedodd aelod o'r Panel fod angen bod yn ofalus oherwydd gallai 3a gadarnhau'r pryder blaenorol bod Cynlluniau Tai Personol yn rhoi dyletswydd anghyfartal ar y ceisydd.
- Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol mai 3d oedd y dull gweithredu y byddent hwy yn ei ffafrio, a'u bod yn gyfforddus â'r geiriau 'bwriadol' ac 'afresymol' yn 3a.
- Nodwyd mai'r bwriad yn yr argymhelliad drafft oedd egluro bod yn rhaid i'r ceisydd fod wedi methu â chymryd unrhyw rai o'r camau a amlinellir mewn Cynllun Tai Personol a bod yn rhaid ei hysbysu cyn i'r camau gael eu cymryd er mwyn dod i'r casgliad ei fod wedi "methu â chydweithredu."
- Mewn cysylltiad â 3b nodwyd mai cyfrifoldeb yr awdurdod, yn Neddf Lloegr, yw dangos bod unigolyn yn gwrthod gweithredu.

- Trafodwyd wrth fynd heibio a ddylai'r argymhellion gyfeirio at yr awdurdod tai ynteu'r awdurdod lleol. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai newid y cyfeiriad hwn yn cael llawer o effaith yn ymarferol.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Roedd barn gymysg ymhlith aelodau'r Panel ynglŷn â'r cwestiwn a ddylid meddalu ynteu ddiddymu "methu â chydweithredu."
- Cytunwyd y byddai'r Panel yn dod yn ôl at y drafodaeth hon ynglŷn ag **a ddylid meddalu ynteu ddiddymu'r cymal presennol.**
- Er hyn, nodwyd bod diffyg cydbwysedd o ran dynameg pŵer yn y ddeddfwriaeth bresennol ac y byddai'r Panel, o leiaf, yn ceisio meddalu'r cymal hwn.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Pawb | Ailystyried y drafodaeth er mwyn cytuno ar ffordd o symud ymlaen. | I'w chadarnhau |
| Hannah Fisher | Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Papur Gwyn, Llywodraeth Cymru i ystyried sut ac a ddylid cyhoeddi rhestr o ymyriadau yn cael eu cefnogi gan y dystiolaeth orau, ac ystyried goblygiadau cael rhestr o ymyriadau y mae'n "rhaid eu cael", o safbwynt adnoddau, fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. | I'w chadarnhau |

**<u>Atal – ymestyn y ddyletswydd 56 diwrnod i gynorthwyo</u>**

***1. Gallai opsiynau ar gyfer addasu ffrâm amser y ddyletswydd atal gynnwys:***

1. *Peidio â gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ddyletswydd 56 diwrnod. Sylwer bod hyn yn golygu bod unigolyn sy'n cael hysbysiad troi allan heb fai am 6 mis (fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru) ddim ond yn cael ei ystyried dan fygythiad am ddau fis olaf (56 diwrnod) y cyfnod hwnnw, felly byddai pedwar mis heb ddyletswydd. Nid yw hyn yn bodloni nodau ymyrryd yn gynnar.*

   *Neu*
2. *Diwygio'r Ddeddf i olygu, ochr yn ochr â'r ddyletswydd atal gyffredinol, os yw person yn cael hysbysiad troi allan dan adran 173 neu 178 o Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru, ystyrir ei fod dan fygythiad o fod yn ddigartref yn awtomatig ar ôl iddo gael yr hysbysiad hwnnw.*

   *Neu*
3. *Ymestyn y ffrâm amser ar gyfer y ddyletswydd atal i chwe mis ond rhoi mwy o bwysoliad ar y gefnogaeth yn y ddau fis olaf.*

   *Neu*
4. *Ymestyn y ddyletswydd fel bod dyletswyddau atal yn gymwys nid pan fydd bygythiad o ddigartrefedd ymhen 56 diwrnod, ond ymhen chwe mis* ***(yn cael ei ddangos fel yr opsiwn posibl a ffefrir ar sail trafodaeth flaenorol y Panel).***

   *Neu*
5. *Diwygio'r Ddeddf fel nad oes terfyn amser yn gynharach yn y broses ar gyfer y ddyletswydd i gynorthwyo i atal digartrefedd o gwbl.*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Roedd cytundeb y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i unrhyw un sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref.
- Roedd cryn dipyn o gefnogaeth ar draws y Panel i ymestyn yr amserlen.

- Nodwyd bod y gwaith o ymgynghori â'r rhwydwaith rheng flaen o weithwyr hefyd yn dangos cefnogaeth frwd i ymestyn y ddyletswydd.
- Roedd y cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cytuno at ei gilydd y dylid newid amseriad y ddyletswydd, ond yn pwysleisio'n gryf bod angen mynd i'r afael â'r broblem adnoddau, oherwydd fel arall bydd y pwyslais yn dal i gael ei roi ar y rheng flaen.
- Gofynnwyd a fyddai angen mwy o waith datblygu gweithlu hefyd, gan fod gweithio ar yr ochr ataliol yn galw am set arbennig o sgiliau. Dywedwyd hefyd y byddai ar awdurdodau lleol angen cymorth i'w helpu i gyflawni'r agenda ataliol.
- Roedd aelod arall o'r Panel yn cydnabod y byddai angen newidiadau ymarferol er mwyn gweithredu'r argymhelliad hwn, a theimlai fod newid cyfreithiol o'r fath yn gyfle i wella pensaernïaeth y system yn y tymor hwy.
- Gofynnwyd a ellid cryfhau'r ddyletswydd i'r Swyddfa Gartref gyfeirio ceiswyr lloches y mae eu cais i aros wedi cael ei ganiatáu er mwyn helpu i sicrhau bod y gwaith atal yn gallu dechrau cyn gynted ag y bo modd yn ystod y 28 diwrnod a roddir iddynt i adael y llety ar gyfer y rhai sy'n aros am ganlyniad cais lloches. Bydd y Panel yn ystyried a oes posibilrwydd y gellid cryfhau geiriad y ddyletswydd i gyfeirio i gynnwys "cyn gynted ag y mae'r Swyddfa Gartref wedi cael ei hysbysu."
- O ran yr amserlenni:
  - Awgrymwyd bod y 6 mis yn cydweddu'n dda â'r Ddeddf Rhentu Cartrefi.
  - Teimlai rhai, yn enwedig â'r adnoddau presennol, y byddai angen canllawiau i helpu awdurdodau lleol i flaenoriaethu o fewn yr amserlen o 6 mis.
  - Mynegodd rhai aelodau o'r Panel bryder y byddai dyletswydd benagored yn rhy lac a bod angen amserlen er mwyn rhoi strwythur.
  - Dywedwyd bod gan ddyletswyddau deddfwriaethol amserlen fel arfer.
  - Gofynnwyd a fyddai'r ddyletswydd 6 mis yn gweithio lle gellir rhagweld digartrefedd cyn yr amserlen honno. Yn achos y rhai sy'n treulio dedfryd o garchar, gellir rhagweld digartrefedd a darparu cymorth cyn y cyfnod o 6 mis. Bydd y Panel yn ailystyried y pwynt hwn pan fydd yn trafod cyfiawnder troseddol yn ddiweddarach yn ei gynllun gwaith.
- Dywedodd aelodau'r Panel ei bod yn bwysig sicrhau bod unigolion yn gwybod beth yw eu hawliau yn y system.
- Dywedodd aelodau'r Panel fod tystiolaeth o waith atal da yng Nghymru, hyd yn oed mewn amseroedd anodd (ar ôl Covid, yr argyfwng costau byw, yr argyfwng yn Wcráin).
- Trafododd aelodau'r Panel pa fath o fesurau atal y dylid eu cynnwys yn y ddyletswydd hon. Er enghraifft, a oes potensial i awdurdodau lleol gael gwasanaeth cyfryngu a chynlluniau blaendal rhent? Byddai angen eglurder yn y Cod Canllawiau.
- Awgrymodd rhai y dylid llunio'r ddyletswydd gan gymryd 'os bydd awdurdodau lleol yn cael yr adnoddau i ddarparu' a phwysleisiwyd bod ar ALlau angen cymorth i gyflawni'r dyletswyddau hyn.
- Nodwyd ar y naill law y gallai cael amlinelliad clir o'r hyn y mae'r dyletswyddau'n ei gynnwys ar wyneb y Ddeddf helpu i sicrhau cymorth ariannol, ond y gallai hefyd arwain at ganlyniadau anfwriadol.
- Awgrymwyd hefyd bod cadw rhestrau o fewn deddfwriaeth yn ei dyddio.
- Roedd aelodau'r Panel yn cydnabod pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol yn y ddyletswydd ataliol. Trafodir hyn yn fanylach wrth i'r Panel symud i ail gam ei gynllun gwaith.
- Trafodwyd beth allai gael ei gynnwys fel atal, ac a ellid diweddaru hyn yn flynyddol mewn Cod statudol. Teimlai rhai aelodau o'r Panel y byddai amlinellu ymyriadau atal gofynnol yn bwysig. Roedd eraill yn pryderu ynglŷn â chanlyniadau negyddol creu rhestrau.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Cytunodd aelodau'r Panel ar argymhelliad 1d â chafeat yn nodi bod angen mwy o adnoddau, oherwydd fel arall bydd ymdrechion yn dal i ganolbwyntio ar reng flaen digartrefedd.
- Yn ogystal, cytunodd aelodau'r Panel i ystyried ymhellach:
    - Pa argymhellion eraill y gellir eu gwneud mewn cysylltiad ag ymyriadau eraill?
    - Mae angen i'r darpar weithlu gyflawni mesurau ataliol.
    - Sut y mae amserlenni atal yn addas i'r rhai hynny sy'n treulio dedfryd o garchar lle mae'n bosibl rhagweld digartrefedd yn aml cyn 6 mis.
    - A ellir cryfhau dyletswydd atgyfeirio y Swyddfa Gartref ar ôl i geisiwr lloches gael caniatâd i aros yn y wlad er mwyn cynyddu'r amserlen i gefnogi unigolion a'u hatal rhag mynd yn ddigartref.

| Aelod(au) y Panel | Cam gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Pawb | • Mewnbwn ehangach gan y sector cyhoeddus i atal i'w ailystyried mewn trafodaethau yn y dyfodol ar ddyletswyddau ehangach y sector cyhoeddus.<br>• Ystyried beth yw mesurau ataliol eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br>• Ystyried sut y mae dyletswydd atal 6 mis yn gweithio yng nghyd-destun cyfiawnder troseddol a gadawyr carchar eto fel rhan o gyfarfod i drafod cyfiawnder troseddol yn y dyfodol ar 24/04/23. | Mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. |
| Liz Davies CB | Meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol arnynt:<br>• Ystyried sut y gallwn sicrhau bod y 28 diwrnod a roddir i geiswyr lloches adael llety yn cael eu cynyddu dan ddyletswydd atal. | I'w chadarnhau |

<u>**Atal – cymorth i gadw llety (meysydd posibl eraill ar gyfer deddfwriaeth)**</u>

Argymhellion posibl i'w hystyried gan y Panel – cymorth i gadw llety

1. ***Gallai'r Panel ystyried rhoi dyletswydd i helpu i gynorthwyo unigolyn i gadw tenantiaeth. Mae'r opsiynau yn cynnwys:***
    1. *Diwygio Deddf Tai Cymru 2014 fel bod gan yr awdurdod tai lleol, os yw wedi asesu bod ar y ceisydd angen cymorth i gadw llety, ddyletswydd i ddarparu cymorth tai ac i ofyn i awdurdodau eraill gydweithredu drwy ddarparu cymorth ar wahân i gymorth tai sydd ei angen er mwyn i'r ceisydd allu cadw'r llety.*

       *Gallai'r geiriad a awgrymir gynnwys: "lle'r aseswyd bod ar geisydd angen cymorth er mwyn cadw llety, mae dyletswydd ar yr awdurdod tai lleol i: a. Darparu'r cyfryw gymorth sy'n unol â'i swyddogaeth; a b. Mynnu bod awdurdodau cyhoeddus eraill yn darparu cymorth."*

       *Mae'r statudau perthnasol, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn cael eu diwygio er mwyn darparu, lle bo awdurdod tai lleol yn gofyn am gydweithrediad yn yr amgylchiadau hyn, bod dyletswydd i ddarparu'r cymorth hwnnw i'r ceisydd.*

       *Byddai angen ystyried a ellid diwygio deddfwriaeth sy'n berthnasol i bob rhan o'r DU, er enghraifft deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Gartref, ac ati.*

       *Rhaid cael ffordd o ddod â'r ddyletswydd i ben. Naill ai mae'n parhau am gyfnod penodol (er enghraifft, 12 mis, yn unol â'r isafswm tenantiaeth effeithiol dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru), neu byddai'n dod i ben ar ôl gwneud asesiad pellach a bod yr asesiad yn*

*dod i'r casgliad nad oes ar y ceisydd angen cymorth mwyach i'w helpu ef neu hi i gadw'r llety.*
*Byddai angen i ganllawiau ddarparu manylion ynglŷn â beth y byddai cymorth yn ei gynnwys a sut y byddai'n rhyngweithio â meysydd cymorth eraill.*
*neu*

**2.** *Gellid diwygio Adran 59 o Ddeddf Tai Cymru (sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer addasrwydd llety) i ddarparu na fydd llety sy'n cael ei sicrhau ar gyfer person a aseswyd fel un sydd angen cymorth yn addas nes bydd y cymorth hwnnw'n cael ei ddarparu (a bod y ceisydd wedi'i hysbysu ynglŷn â lefel y cymorth i'w ddarparu).*
*Gallai cymalau priodol gynnwys "unigolyn sydd angen cymorth er mwyn cadw llety" neu "unigolyn ag anghenion lluosog a chymhleth sydd angen cymorth er mwyn cadw llety."*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Nodwyd bod arbenigwyr drwy brofiad wedi cyfeirio yn aml at bwysigrwydd cymorth i gadw tenantiaeth.
- Teimlid hefyd bod mewnosod dyletswydd i helpu i gynnal tenantiaeth yn unol ag ethos Llywodraeth Cymru o sicrhau bod achosion o ddigartrefedd 'yn brin, yn fyrhoedlog ac nad ydynt yn ailddigwydd'.
- Bydd sicrhau bod cymorth o'r fath wedi'i wreiddio yn y gyfraith ac nad yw'n ddibynnol ar ewyllys da yn helpu i sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn.
- Awgrymwyd bod gan landlordiaid cymdeithasol bryderon pan nad oes cymorth i helpu tenantiaid. Os yw'r Panel yn ceisio cynyddu nifer y tai sy'n cael eu dyrannu i aelwydydd digartref, bydd y cymorth hwn yn bwysig iawn.
- Trafodwyd a ddylai'r ddyletswydd fod ar yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r awdurdod tai lleol yn benodol, gan fod y gyllideb ar gyfer cymorth o'r fath yn dod gan yr awdurdod lleol ehangach ac nad yw o reidrwydd yng ngofal yr adrannau tai. Er hyn, nodwyd bod Deddf Tai Cymru yn cyfeirio at Awdurdodau Tai Lleol drwyddi, felly efallai y byddai'n well gwneud y pwynt hwn drwy gynnwys adran yn y ddyletswydd i'r awdurdod lleol ehangach.
- Trafodwyd pwysigrwydd diffinio beth yw ystyr "cymorth" yn y ddyletswydd hon. Er enghraifft, gofynnodd un aelod a oedd posibilrwydd y gallai gwasanaethau cymorth gynnwys cymorth ariannol megis talu ôl-ddyledion rhent?

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Roedd cefnogaeth i ddyletswydd i helpu i gadw tenantiaeth ac i beidio â chael cyfyngiadau amser. Er hyn, roedd cafeat y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i'r awdurdod lleol ehangach.
- Bydd angen i'r Panel ddychwelyd at drafodaethau yn ymwneud â diffinio ac egluro cymorth i gadw tenantiaeth ymhellach.
- Bydd y Panel hefyd yn dod yn ôl i ystyried sut y mae'r ddyletswydd hon yn cysylltu ag argymhellion posibl yn y dyfodol ynglŷn â dyletswyddau cyhoeddus ehangach.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Pawb | • Dychwelyd at drafodaeth ar egluro pa fath o gymorth fyddai'n cael ei gynnwys yn y ddyletswydd hon.<br>• Ystyried sut y byddai'r ddyletswydd hon yn cysylltu ag unrhyw argymhellion yn ymwneud â dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach. | Parhaus |

3. **Cytuno ar argymhellion yn ymwneud â'r tri phrawf cyfreithiol**

Mae'r maes trafodaeth hwn yn cynnwys:

- Angen blaenoriaethol
- Bwriadoldeb
- Cysylltiad lleol

**<u>Y tri phrawf cyfreithiol – angen blaenoriaethol</u>**

Argymhellion posibl i'w hystyried gan y Panel – Angen blaenoriaethol:

1. ***Mae'r opsiynau sy'n ymwneud ag angen blaenoriaethol yn cynnwys:***
   - ***a)*** *Cynnal angen blaenoriaethol yn ei ffurf bresennol*

     *Neu*
   - ***b)*** *Ymestyn y rhestr o'r rhai yr ystyrir bod ganddynt angen blaenoriaethol. Er enghraifft, i gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig*

     *Neu*
   - ***c)*** *Diddymu Angen Blaenoriaethol* ***(ar sail trafodaethau blaenorol, efallai mai hwn fydd yr opsiwn a ffefrir gan y rhan fwyaf o'r Panel.)***

     *Dylid ystyried beth y dylid ei wneud ag opsiwn c:*
     - ***i.*** *Ei gyflwyno ar unwaith*
     - ***ii.*** *Ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod (er enghraifft awgrymwyd 5 neu 10 mlynedd)*
     - ***iii.*** *Mabwysiadu dull gweithredu fesul cam yn unol â chynlluniau datblygu tai fforddiadwy*
     - ***iv.*** *Mabwysiadu dull gweithredu fesul cam, gan adael i awdurdodau lleol benderfynu pa grwpiau angen blaenoriaethol i'w blaenoriaethu yn y cyfamser*
     - ***v.*** *Mabwysiadu dull gweithredu fesul cam, gan nodi pa grwpiau i roi blaenoriaeth iddynt wrth gyflwyno fesul cam*
     - ***vi.*** *Mabwysiadu dull gweithredu fesul cam sy'n gweithredu ar sail cynllun peilot*
     - ***vii.*** *Yn ystod dull gweithredu fesul cam, dylai asesiad o angen helpu i nodi'r rhai sy'n cael blaenoriaeth*

       *yn ychwanegol*
   - ***d)*** *Pe bai'r Panel yn dewis diddymu angen blaenoriaethol, mae angen penderfynu hefyd a ddylid diddymu'r ddyletswydd liniaru – gweler y pwyntiau i'w hystyried isod am fwy o fanylion ynglŷn â goblygiadau hyn.*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Teimlai aelodau'r Panel fod momentwm o blaid diddymu angen blaenoriaethol. Nodwyd bod grŵp cyfeirio'r awdurdodau lleol yn cefnogi dileu'r prawf Angen Blaenoriaethol.
- Nodwyd hefyd, yn dilyn dull gweithredu *Pawb i Mewn* y pandemig, ac ar ôl ychwanegu Digartref ar y Stryd at Angen Blaenoriaethol yn ddiweddar, bod y symudiad tuag at ddiddymu'r prawf wedi datblygu cryn dipyn.
- Er hyn, nodwyd bod y system digartrefedd yn gwegian, ac os yw Angen Blaenoriaethol yn cael ei ddiddymu bydd angen i awdurdodau lleol symud ymlaen â Chynlluniau Ailgartrefu Cyflym.
- Dywedodd cynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol fod angen cyrraedd cerrig milltir cyflenwi cyn mynd ati i ddiddymu Angen Blaenoriaethol, a theimlent fod angen cyflwyno'r mesur hwn yn raddol er mwyn iddo fod yn llwyddiannus.

- Wrth ddiddymu angen blaenoriaethol, dylid ystyried hefyd y bydd proffil y ceiswyr sy'n dod drwy'r system yn newid, a bydd angen adlewyrchu hyn yn y math o lety sydd ar gael. Er enghraifft, byddwn yn gweld mwy o feddianwyr sengl yn dod drwy'r system, a fydd yn golygu bod angen cael mwy o letyau un ystafell wely. (Nodwyd pa mor anodd y gall annog adeiladu unedau un ystafell wely fod, a bod angen rhwymau deddfwriaethol neu gyllidol i wneud i hyn ddigwydd.)
- Nodwyd bod y defnydd o Lety Dros Dro wedi treblu ar ôl diddymu Angen Blaenoriaethol yn yr Alban.
- Nododd aelodau'r Panel fod barn yr arbenigwyr drwy brofiad ynglŷn â mater angen blaenoriaethol yn gymysg, a'u bod yn teimlo y byddai rhai grwpiau yn elwa o hyn. Er hyn, roedd yr arbenigwyr drwy brofiad yn teimlo bod y system yn rhy gyffredinol ac nad yw'n cydnabod amgylchiadau unigolion a ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed wrth ystyried blaenoriaethau.
- Mae gan weithwyr rheng flaen bryderon ynglŷn â sut y mae angen cyflenwad o dai ac adnoddau i fod yn sail i ddiddymu Angen Blaenoriaethol.
- Awgrymwyd bod angen rhyw fath o sicrwydd er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r unigolion mwyaf agored i niwed yn syrthio drwy'r craciau os yw Angen Blaenoriaethol yn cael ei ddileu. Heb Angen Blaenoriaethol a chyflenwad priodol o letyau – sut fydd awdurdodau lleol yn penderfynu pwy fydd yn cael llety? Yn y sefyllfa hon, os yw pawb yn flaenoriaeth, does neb yn flaenoriaeth.
- Teimlai aelod arall fod Angen Blaenoriaethol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer porthgadw, ond heb y prawf Angen Blaenoriaethol byddai blaenoriaeth yn cael ei hadlewyrchu drwy asesiadau o angen.
- Awgrymwyd bod angen canllawiau yn ogystal â deddfwriaeth, i sicrhau nad yw pobl yn cael cynnig amwys ac yn cael eu gwthio i lety dros dro neu lety llai addas.
- Teimlai aelodau'r Panel bod gwir angen gwaith proffilio er mwyn canfod i ba raddau y mae angen datblygu'r stoc dai bresennol. O fewn hyn, mae angen edrych pa fathau o dai sydd eu hangen yn yr 20,000 o gartrefi.
- O ran sut i weithredu angen blaenoriaethol, trafodwyd y pwyntiau a ganlyn:
    - Nodwyd bod dadl dros gyflwyno cynnig i ddiddymu Angen Blaenoriaethol ar unwaith. Teimlai'r aelod hwn o'r Panel y byddai cyflwyno'r newid hwn yn raddol yn gam yn ôl gan fod llawer o awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu hyn yn ymarferol. Awgrymwyd y bydd ychydig o amser yn mynd heibio rhwng y bwriad polisi i ddiddymu Angen Blaenoriaethol mewn papur gwyn gan Lywodraeth Cymru a'r adeg y daw'r ddeddfwriaeth i rym. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r amser hwn i baratoi.
    - Dewis arall i'w ystyried yw diddymu Angen Blaenoriaethol ar unwaith, ond cyflwyno'r safonau addasrwydd llety yn raddol tra mae sylw'n cael ei roi i faterion yn ymwneud â chyflenwad. Er hyn, dylid anelu at y nod o sicrhau nad oes neb mewn Llety Dros Dro am gyfnod hir.
    - Nodwyd bod opsiwn ciii yn edrych yn dda ar yr wyneb, ond y gallai fod yn anodd i'w weithredu yn ymarferol.
    - Dywedodd aelod o'r Panel fod y diddymu wedi'i gyflwyno'n raddol dros gyfnod o 10 mlynedd yn yr Alban, ond bod teimlad bod hynny'n rhy hir. Roedd yn golygu bod rhai'n gweithredu'n llawer hwyrach na'i gilydd. Nodwyd bod angen cael momentwm cadarnhaol er mwyn ysgogi newid.
    - Dywedodd un aelod, os cyflwyno diddymu Angen Blaenoriaethol yn raddol yw'r bwriad, bod yn rhaid cael cyfnod wedi'i ddiffinio'n glir a chanllawiau clir er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethu'n digwydd.
    - Awgrymwyd y dylai'r amser cyflwyno yn raddol fod yn gysylltiedig â chyfrifiadau ar gyfer yr amser sydd ei angen i ddatblygu cyflenwad o dai.

    - Awgrymodd aelod arall y byddai cael cyfnod arweiniol yn well na chyflwyno'n raddol. Dylid cael cynlluniau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer camau y mae angen iddynt ddigwydd yn ystod y cyfnod arweiniol hwn. Yn y cyfamser, byddai'n bwysig cynnal y sefyllfa bresennol o ran angen blaenoriaethol, gan gynnwys ychwanegu digartrefedd ar y stryd. Cydnabyddir bod Cymru wedi dod yn bell yn barod o ran lleihau angen blaenoriaethol, ac ni fyddai arnom eisiau cymryd cam yn ôl yn ystod cyfnod arweiniol.
- O ran argymhelliad 1d) i ddiddymu'r ddyletswydd liniaru, ynghyd ag angen blaenoriaethol, cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:
    - Cafodd y ddyletswydd liniaru ei chynllunio yn wreiddiol er mwyn sicrhau bod pobl sengl yn cael cynnig rhywfaint o gymorth. Fodd bynnag, os nad oes angen blaenoriaethol, yna dylai'r ddyletswydd liniaru a'r ddyletswydd derfynol fod yn gymwys i bawb. O ganlyniad, mae posibilrwydd y gallai'r dyletswyddau hyn gael eu symleiddio er mwyn gwneud y system yn symlach ac yn llai cymhleth.
    - Fodd bynnag, roedd aelod o'r Panel yn bryderus, os yw'r prawf bwriadoldeb yn cael ei gadw, sut y gallai'r ceiswyr hyn gael eu heffeithio gan fod dyletswydd liniaru yn gymwys iddynt ar hyn o bryd ond nid y ddyletswydd derfynol.
    - Teimlid bod y ddyletswydd liniaru bresennol yn rhoi cyfle i ddatrys problemau, felly os bydd dyletswydd liniaru'n cael ei diddymu, bydd angen edrych yn fanwl ar y ddyletswydd adran 75.
    - Roedd y grŵp yn awyddus i ystyried a allai ceiswyr fod â hawl i herio mewn sefyllfa lle nad yw cynnig terfynol o lety a wneir yn adran 75 yn addas. Mae'n bosibl y gellid cysylltu'r her hon ag asesiad mewn Cynlluniau Tai Personol.
    - Awgrymodd aelod o'r Panel, os ydym yn colli dyletswydd liniaru, a ddylem ystyried ymestyn y ddyletswydd atal i 12 mis yn hytrach na 6 mis?

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Cytunodd y Panel i argymell 1c, diddymu angen blaenoriaethol.
- Dylai'r diddymu hwn gael cyfnod arweiniol wedi'i ddiffinio'n glir, a dylai ddod i rym ar unwaith ar ôl hynny.
- Yn ystod y cyfnod arweiniol, rhaid i'r camau presennol er mwyn symud ymlaen yn y maes hwn barhau, gan gynnwys nodi digartrefedd ar y stryd fel categori angen blaenoriaethol.
- Yn ystod y cyfnod arweiniol bydd angen proffilio'r cyflenwad tai yn glir a datblygu adnodau a chyflenwad o dai yn unol â hynny.
- Mae'n bosibl y bydd y Panel yn argymell diddymu'r ddyletswydd liniaru, ond yn gyntaf bydd yn ystyried a oes angen amddiffyniad i eraill y bernir eu bod yn ddigartref "yn fwriadol".
- Bydd angen i'r Panel hefyd ystyried a fyddai angen rhagor o fesurau o fewn y ddyletswydd adran 75, megis gallu i geisydd herio os yw llety a gynigir yn anaddas. Gellid cysylltu hyn ag asesiad o anghenion.

| Aelod(au) y Panel | Cam gweithredu | Amserlen |
| --- | --- | --- |
| Liz Davies CB | Meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol ar gwestiynau allweddol a godwyd:<br>• Sut y byddai diddymu'r ddyletswydd liniaru yn effeithio ar y rhai y bernir eu bod "yn ddigartref yn fwriadol" os nad yw bwriadoldeb yn cael ei ddiddymu hefyd.<br>• A ellid mewnosod hawl i herio cynnig o lety dan adran 75 os nad yw'n addas/nad yw'n diwallu anghenion y ceiswyr fel y maent wedi'u hamlinellu yn eu Cynllun Tai Personol. | I'w gadarnhau |

**<u>Y tri phrawf cyfreithiol – bwriadoldeb</u>**
**Argymhellion posibl i'w hystyried gan y Panel – Bwriadoldeb**
***1. Mae'r opsiynau'n cynnwys:***

***a)*** *Cadw'r prawf bwriadoldeb yn ei ffurf bresennol*

*Neu*

***b)*** *Cadw'r prawf bwriadoldeb, ond â rhagor o ganllawiau a monitro*

*Neu*

***c)*** *Diddymu'r prawf bwriadoldeb* ***(yn seiliedig ar drafodaethau blaenorol, mae'n debyg mai hwn yw'r opsiwn a ffefrir gan y Panel.)***

*Neu*

***d)*** *Diddymu'r prawf bwriadoldeb ac ar yr un pryd cyflwyno darpariaethau newydd i ddeddfwriaeth dyrannu tai cymdeithasol sy'n cyfyngu/dileu unrhyw flaenoriaeth*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Teimlai aelodau'r Panel fod angen dull gweithredu cytbwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar drawma.
- Nodwyd y byddai diddymu'r prawf cyfreithiol hwn yn dileu'r syniad o fod 'yn ddigartref yn fwriadol.'
- Nodwyd bod Bwriadoldeb wedi'i fwriadu fel ateb i sefyllfa lle mae unigolyn yn camddefnyddio'r system yn fwriadol. Fodd bynnag, teimlid yn hytrach ei fod yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o ddisgyblu. Mae Bwriadoldeb yn ei ffurf bresennol yn arwain at anghydbwysedd o ran dynameg pŵer.
- Nodwyd nad yw'r prawf yn cael ei ddefnyddio'n aml a dim ond ar gyfer set gyfyng o geiswyr. Er hyn, teimlai'r aelodau fod cadw'r prawf yn ei le yn cyfyngu ar newid diwylliant.
- Awgrymodd aelodau eraill o'r Panel, er mai yn anaml iawn y defnyddir y prawf bwriadoldeb mewn ffordd swyddogol, bod tystiolaeth sy'n awgrymu ei fod yn cael ei ddefnyddio yn gynharach yn y broses o wneud cais. Gall cyfeirio at y prawf mewn sgwrs gyda cheiswyr gael ei ddefnyddio fel ffordd o gael pobl i beidio â chymryd camau penodol/ effeithio ar eu penderfyniadau.
- Nodwyd bod diddymu'r prawf bwriadoldeb yn cael ei gefnogi gan arbenigwyr drwy brofiad a gweithwyr rheng flaen. Roedd teimlad cryf bod diddymu'r prawf hwn yn paratoi ffordd ymlaen i wlad sy'n trin pobl ag urddas.
- Teimlai cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod angen cadw rhai llinellau coch a bod angen rhywfaint o gydbwysedd mewn rhai meysydd, h.y. peidio â thalu rhent, ymddygiad. Roedd teimlad, pe bai bwriadoldeb yn cael ei ddiddymu, y byddai angen i'r Panel ystyried sut y ceir cydbwysedd wrth edrych ar ddyraniadau.
- Nodwyd, o safbwynt cyfreithiol, bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol gan ei fod yn cynnwys ôl-ddyledion rhent.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Cytunodd y Panel i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb, ond er bod y mwyafrif yn ffafrio opsiwn c, roedd eraill yn teimlo mai'r unig opsiwn y gallent ei gefnogi oedd opsiwn d.
- O ganlyniad, cytunwyd i ddychwelyd at y drafodaeth hon ar y cyd â thrafodaeth y grŵp ar ddyraniadau.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Pawb | Yn dilyn trafodaeth y grŵp ar ddyraniadau, penderfynu ynglŷn ag argymhelliad 1c neu 1d ar gyfer bwriadoldeb. | I'w gadarnhau |

**Y tri phrawf cyfreithiol – cysylltiad lleol**

Argymhellion posibl i'w hystyried gan y Panel – cysylltiad lleol:

***1. Mae'r argymhellion posibl yn cynnwys:***

***a) Gohirio/ diddymu'r prawf yn gyfan gwbl***

*Gallai opsiynau i helpu i liniaru pryderon awdurdodau lleol ynglŷn â'r newid hwn gynnwys; creu system newydd ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn adennill costau cynorthwyo'r rhai sydd heb gysylltiad lleol; cryfhau canllawiau rhwng awdurdodau lleol; gwneud y newid hwn i'r ddeddfwriaeth yn amodol ar adolygiad i ystyried, a gweithredu os bydd pryderon y bydd rhai awdurdodau lleol yn cael eu llethu â cheiswyr o'r tu allan i'r ardal yn cael eu gwireddu.*

*Neu*

***b) Gohirio'r prawf cysylltiad lleol, tra'n galluogi Gweinidogion Cymru i ailgymhwyso'r prawf ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol penodol sy'n dioddef pwysau gormodol oherwydd llif net o geiswyr i mewn i'r ardal.***

*Gallai'r opsiynau gynnwys: datblygu system ariannu ganolog neu system yn galluogi awdurdodau lleol i hawlio gan ei gilydd, i'w datblygu ar y cyd ag awdurdodau lleol, a chan ddysgu gan wledydd eraill;[1] darparu cyllid canolog i'r rhai hynny sydd wedi dod o awdurdod cartref yn Lloegr; cyfyngu diddymu cysylltiad lleol i'r rhai hynny sydd o Gymru ochr yn ochr â chategorïau penodol eraill.*

*Neu*

***c) Gwella/ ymestyn y diffiniad statudol o gysylltiad lleol****.*

*Gallai hyn gynnwys; ychwanegu rhagor o grwpiau o bobl at y rhestr o eithriadau er mwyn caniatáu ar gyfer cysylltiad ar wahân i gysylltiad teuluol â chymuned, a rhoi gwell sylw i'r rhesymau pam y mae rhywun yn methu â dychwelyd i'w awdurdod cartref (e.e. cymunedau LGBTQ, cysylltiadau â chymorth); mwy o eglurder ynglŷn â'r categori "rhesymau arbennig" fel ffordd o sicrhau dull cenedlaethol mwy cyson; sicrhau gwasanaeth ailgysylltu sy'n cwmpasu'r broses gyfan â chymorth priodol er mwyn galluogi pobl i adleoli i'w gwlad enedigol yn hytrach na mynd yn ddigartref yng Nghymru, dim ond os yw hyn er eu pennaf les ac os dyma'r opsiwn y maent yn ei ffafrio.*

*A/neu*

***d) Tynhau canllawiau yn ymwneud â chymhwyso'r prawf cysylltiad lleol***

*Gallai hyn gynnwys; sicrhau bod y prawf yn cael ei gymhwyso mewn amgylchiadau penodol yn unig, a bod dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn penderfynu a oes cysylltiad lleol; monitro defnydd awdurdodau lleol o'r prawf; annog mwy o gydweithredu drwy ganllawiau.*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Teimlai amryw o aelodau'r Panel fod cysylltiad lleol yn niweidiol. Er hyn, nododd y Cadeirydd bod teimlad cryf iawn ar ddwy ochr y ddadl, a bod grŵp cyfeirio'r awdurdodau lleol wedi dangos cryn wrthwynebiad i ddiddymu'r prawf. O ganlyniad, teimlai'r Cadeirydd mai'r ffordd ymlaen o bosibl oedd edrych ar feddalu'r prawf yn hytrach na'i ddiddymu.
- Roedd aelodau eraill o'r Panel yn awyddus i edrych sut y gellid lleddfu pryderon gan awdurdodau lleol drwy grynhoi adnoddau neu edrych ymhellach ar opsiwn b. Teimlid bod cysylltiad lleol yn offeryn porthgadw ac nad yw'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

[1] Mackie, P. a Thomas, I. (2016) Transitory Single Homelessness in Wales. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd.

- Nododd aelod o'r Panel y byddai realiti cadw cysylltiad lleol yn golygu y bydd poblogaeth sy'n cysgu ar y stryd bob amser. Yn ystod Covid, roedd Cymru yn ddall i gysylltiad lleol, a gweithiodd hynny'n dda gan ddod â nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd i lawr.
- Teimlai aelodau'r Panel fod y prawf cysylltiad lleol presennol yn rhy gyfyng a bod angen ei ehangu o ran y ffordd y mae'n cydnabod bod cysylltiad wedi'i sefydlu. Er enghraifft, i ystyried mynediad at rwydweithiau cymorth, cysylltiadau â chymunedau LGBTQ ac enghreifftiau eraill o'r rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth.
- Teimlai aelodau'r Panel, ar gyfer y dyfodol, bod yn rhaid i gysylltiad lleol fod yn bragmataidd ac yn seiliedig ar drawma er mwyn gwneud gwahaniaeth ymarferol.
- Codwyd y pwynt mai cysylltiad lleol o bosibl fyddai'r unig brawf a fyddai ar ôl o'r tri sy'n bodoli ar hyn o bryd. Byddai hyn yn rhoi pwyslais sylweddol ar y prawf fel porthgeidwad, ac o ganlyniad byddai'n rhaid cael canllawiau statudol llym a chlir ynglŷn â sut i'w weithredu.
- Bydd canllawiau yn hanfodol hefyd er mwyn egluro meysydd llwyd ac annog awdurdodau lleol i grynhoi adnoddau. Mae angen mynd i'r afael â'r ffaith bod cysylltiad lleol yn cael ei ddehongli'n wahanol iawn mewn gwahanol ardaloedd, a bod diffyg cysondeb.
- Nodwyd bod y gyfraith eisoes yn cynnwys llawer o wybodaeth am gysylltiad lleol sy'n cael ei gymhwyso'n anghywir. Mae gan ganllawiau statudol ran i'w chwarae er mwyn sicrhau nad yw'r gyfraith yn cael ei chymhwyso'n anghywir. Nodwyd hefyd bod yr "amgylchiadau arbennig" yn y gyfraith hefyd yn eang iawn ar hyn o bryd, ond eu bod yn cael eu cymhwyso mewn ffyrdd gwahanol.
- Tybed a ellid ffurfio cysylltiad agosach rhwng yr "amgylchiadau arbennig" a dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn?
- Mae angen mynd i'r afael â'r ffordd y mae cysylltiad lleol yn cael ei ddefnyddio fel rhwystr cyn i geiswyr wneud cais.
- Nododd aelodau'r Panel fod y gyfraith yn glir iawn nad yw cysylltiad lleol yn gymwys mewn llety dros dro.
- Cododd aelodau'r Panel yr angen am wasanaeth ailgysylltu neu gefnogaeth rannol er mwyn amddiffyn y rhai hynny nad oes ganddynt gysylltiad lleol.
- Holwyd hefyd sut y dylid mynd i'r afael ag atgyfeiriadau yn ôl i Loegr.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

Roedd teimlad cryf ar y ddwy ochr ac roedd barn y Panel yn rhanedig ynglŷn â diddymu neu gadw'r ddyletswydd cysylltiad lleol. O ystyried cryfder y teimlad ar y ddwy ochr, penderfynwyd mynd am opsiwn 1c, ond â'r cafeatau a ganlyn:

- Dylid adolygu canllawiau yn ofalus er mwyn rhoi mwy o eglurder ynglŷn â "rhesymau arbennig" a sicrhau eu bod yn rhoi sylw i'r pwyntiau a gyflwynwyd i'r Panel ac yn ystyried dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma.
- Dylid ystyried ymestyn y rhestr o'r rhai hynny sydd wedi eu heithrio o'r prawf cysylltiad lleol.
- Dylid ystyried gwasanaeth ailgysylltu.
- Dylid ystyried sut y gellir osgoi camgymhwyso'r gyfraith.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Liz Davies CB | Meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol arnynt:<br>• Sut y gellid diffinio "amgylchiadau arbennig" yn well er mwyn ystyried profiad unigolion a dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma.<br>• Ystyried sut y gellir mynd i'r afael ag atgyfeiriadau cysylltiad lleol i Loegr. | I'w chadarnhau |

4. **Cytuno ar argymhellion yn ymwneud â throi allan**

**<u>Troi Allan</u>**

Argymhellion posibl i'w hystyried gan y Panel – troi allan:

***1. Cynnwys 'dyletswydd i ddarparu cefnogaeth' er mwyn cadw llety ar wyneb Deddf Tai Cymru***

*Gweler yr argymhellion ar dudalen 11 am fanylion.*

***2. Sicrhau bod pobl yn cael eu hystyried fel rhai sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref ar ôl iddynt gael hysbysiad troi allan dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru drwy:***

- ***a)*** *mewnosod darpariaeth yn barnu bod deiliad contract y cyflwynir hysbysiad iddo yn gofyn am feddiannaeth dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 dan fygythiad o ddigartrefedd. Fel mater o gyfraith, byddai deiliad y contract dan fygythiad o ddigartrefedd a byddai'r ddyletswydd atal yn adran 66 yn gymwys.*

  *A*

- ***b)*** *Ymestyn y ddarpariaeth gyfredol yn adran 55 o Ddeddf Tai Cymru er mwyn darparu bod unigolyn dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd yr unigolyn hwnnw yn mynd yn ddigartref cyn pen chwe mis (neu 182 diwrnod). Byddai hyn yn golygu y byddai ymyriad cynnar yn gymwys i unrhyw un y byddai'r awdurdod tai lleol o'r farn ei fod yn debygol o fod yn ddigartref cyn pen chwe mis. Byddai'n cynnwys y rhai sydd wedi cael hysbysiadau adran 173, ond ni fyddai'n gyfyngedig i'r bobl hynny.*

***3. Diogelu tenantiaid rhag troi allan heb fai yn y sector rhentu preifat drwy:***

- ***a) Dileu troi allan heb fai,*** *yn unol â'r Alban a Lloegr. Mae'n bosibl y gallai hyn gynnwys cymal machlud yn nodi na fydd y newid hwn yn dod i rym nes bydd darn ar wahân o waith wedi'i wneud i ddatblygu seiliau newydd sydd eu hangen ar gyfer troi allan.*

***4. Deddfu i gefnogi'r nod polisi o 'ddim troi allan i fod yn ddigartref o'r sector rhentu preifat' drwy:***

- ***a) Diwygio'r <u>protocol cyn gweithredu</u> NEU <u>Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)</u> i nodi*** *"Na fydd yn rhesymol i wneud gorchymyn meddiannaeth mewn unrhyw hawliad a ddygir yn erbyn tenant diogel oni bai fod gan y Llys dystiolaeth naill ai:*
  - ***i.*** *Bod gan y tenant lety amgen addas ar gael iddo ef neu hi ei feddiannu ar ddyddiad unrhyw orchymyn meddiannaeth; neu*
  - ***ii.*** *bod awdurdod tai lleol wedi derbyn bod ganddo ddyletswydd i'r tenant dan Ddeddf Tai Cymru 2014 ac y bydd llety'n cael ei sicrhau dan y ddyletswydd honno." (Gall hyn olygu y gall tenant gael ei droi allan i lety interim neu dros dro).*
- ***b) Gallai'r Panel fynd ymhellach a cheisio gwneud cais am ddiffiniad deddfwriaethol o 'droi allan i ddigartrefedd' sy'n eithrio'r posibilrwydd o droi allan o dai cymdeithasol i lety dros dro, hyd yn oed ar ôl i awdurdod lleol dderbyn dyletswydd ailgartrefu****. Gellid gwneud hyn drwy ddiwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) er mwyn darparu "Na fydd yn rhesymol gwneud gorchymyn meddiannaeth mewn unrhyw hawliad a ddygir yn erbyn tenant diogel oni bai fod gan y Llys dystiolaeth bod llety addas yn debygol o fod ar gael i'w feddiannu gan [ddeiliad y contract a phawb sy'n byw gyda deiliad y contract] am gyfnod o 6 mis o leiaf ar ddyddiad unrhyw orchymyn meddiannaeth."*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Mynegwyd pryder y gallai opsiwn 3 arwain at golli llawer iawn o landlordiaid o'r sector rhentu preifat. Awgrymodd aelodau eraill o'r Panel y byddai angen rheoli hyn drwy fewnosod seiliau arbennig ar gyfer troi allan heb fai.
- Nodwyd nad oedd llawer o awydd ymhlith Gweinidogion i newid y Ddeddf Rhentu Cartrefi.
- Nodwyd bod troi allan heb fai yn mynd i bapur gwyn yn Lloegr, a'i fod wedi'i ddileu yn barod yn yr Alban. Cymru yw'r wlad olaf sydd yn y sefyllfa hon, ac mae'n teimlo'n anghyfforddus. Gallai'r Panel osod nod o gydnabod yn yr adroddiad, fan lleiaf, bod hyn yn cael ei adolygu.
- Roedd y Panel yn cydnabod bod angen cydbwysedd teg rhwng hawliau tenantiaid a mesurau i ddiogelu landlordiaid preifat.

- Mae angen ystyried canlyniadau anfwriadol, oherwydd heb opsiynau troi allan heb fai, gallai mwy o denantiaid gael hysbysiadau ar fai, gan ei gwneud yn anos iddynt ddod o hyd i gartref newydd.
- Bu'r grŵp yn ystyried a ellid gwneud mwy i edrych ar gamau rhesymol y mae'n rhaid eu cymryd cyn rhoi hysbysiad ac i ystyried a ellid diwygio'r protocol cyn gweithredu fel hyn.
- Mewn cysylltiad â throi allan o dai cymdeithasol, dywedodd cynrychiolydd cymdeithasau tai y byddai deddfu yn y maes hwn yn gyfystyr â pheidio â chydnabod yr ewyllys da a'r camau sydd wedi eu cymryd yn y maes hwn. Roedd pryder bod deddfwriaeth yn ddiangen ac y gallai danseilio partneriaethau da sy'n bodoli'n barod.
- Er bod aelodau eraill o'r Panel yn cydnabod yr arferion da presennol, roedd awydd i ddysgu o'r ymarfer da hwn a'i wreiddio mewn deddfwriaeth er mwyn diogelu rhag newidiadau staff a phwysau yn y dyfodol. Teimlai aelodau'r Panel nad oes drwg mewn cadarnhau ymarfer da sy'n bodoli'n barod mewn deddfwriaeth, yn hytrach na dibynnu ar ewyllys da a allai newid yn llwyr dan arweinyddiaeth newydd. Mae deddfwriaeth yn ymwneud â diogelu yn yr hirdymor.
- Nododd yr aelodau hefyd, er bod y niferoedd yn isel, bod achosion o droi allan o dai cymdeithasol yn digwydd o hyd, yn enwedig lle nad yw anghenion iechyd meddwl yn cael eu diwallu. Nid yw'r ymarfer da presennol yn gyson o reidrwydd.
- Bu'r aelodau hefyd yn ystyried a yw'n werth cryfhau'r geiriad yn y protocol cyn gweithredu, gyda'r bwriad o'i wneud yn gliriach wrth gymryd pob cam rhesymol i osgoi troi allan? Byddai angen negodi hyn gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Nodwyd pwysigrwydd cymorth partneriaeth er mwyn osgoi troi allan. Bydd y Panel yn ystyried hyn fel rhan o'i ystyriaeth o ddyletswyddau sector cyhoeddus ehangach yn nes ymlaen yn ei waith.
- Nodwyd unwaith eto bod cyflenwad yn broblem, ag awdurdodau lleol yn darparu'r llety dros dro wrth i denantiaid gael eu troi allan.
- Teimlai rhai aelodau o'r Panel fod 4b yn mynd yn rhy bell.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Cytunodd y Panel ag argymhellion 1 a 2.
- Nid yw'r Panel yn cytuno'n llwyr â throi allan ac opsiynau 3 a 4, ond roedd yn cytuno y byddent yn ceisio gwneud argymhellion yn y maes hwn ac yn cynnal rhagor o drafodaethau.
- Bydd y pwyntiau a fydd yn cael eu hystyried yn cynnwys:
  - Y protocol cyn gweithredu a chamau rhesymol
  - Seiliau ar gyfer troi allan heb fai yn y sector rhentu preifat
  - Pwyntiau a godir yn y gwaith ymgynghori ynglŷn â dyraniadau a fydd yn cael ei wneud gan Cartrefi Cymunedol Cymru a Llywodraeth Cymru.
  - Ystyriaeth o fodelau eraill, er enghraifft y dull a ddefnyddir yng Ngwlad Belg ac adran 11 yn yr Alban.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Pawb | Y Panel i gynnal cyfarfod ychwanegol ar droi allan i drafod yr uchod. | I'w chadarnhau |
| Liz Davies CB | Meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol arnynt:<br>• Ystyried cryfhau'r geiriad yn y protocol cyn gweithredu ar gymryd pob cam rhesymol i osgoi troi allan. | I'w chadarnhau |

5. **Cytuno ar argymhellion yn ymwneud â chymhwystra**

**<u>Cymhwystra</u>**

Argymhellion posibl i'w hystyried gan y Panel – cymhwystra:

***1. O ran y rhai hynny nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, efallai y byddai'r Panel yn hoffi ystyried:***

- ***a)*** *Argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cynnwys pobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ar y rhestr o bobl sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd. Gallai hyn olygu:*
  - ***i.*** *Cyhoeddi bwriad Llywodraeth Cymru i ragnodi fel personau cymwys, yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, y rhai hynny y mae eu caniatâd yn ddarostyngedig i amod heb hawl i gyllid cyhoeddus, ac yna aros i weld beth, os o gwbl, fydd ymateb llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'i phwerau dan Ddeddf Mewnfudo 1971.*
  - ***ii.*** *Cyhoeddi bwriad a negodi diwygiad i'r Rheolau Mewnfudo fel bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i ragnodi beth yw "cyllid cyhoeddus" at ddibenion y rhai hynny sy'n byw yng Nghymru.*
- ***b)*** *Bod y Panel yn ystyried sut y byddai'r rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus mewn sefyllfaoedd tai bregus yn cael eu cefnogi dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel rhan o'i drafodaeth ar y maes hwn.*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Mynegodd aelodau'r Panel gytundeb ynglŷn â'r egwyddor glir o ddod o hyd i fecanweithiau i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu cymorth digartrefedd i'r rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF).
- Mynegwyd na ellir dileu digartrefedd heb geisio cynorthwyo'r grŵp hwn o bobl.
- Trafodwyd y dulliau gweithredu a chytunwyd y byddai'r Panel yn amlinellu ei argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru geisio llwybr i gynorthwyo'r rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, ond mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am y materion ymarferol a'r dewisiadau ynglŷn â pha lwybr sy'n cael ei ddilyn er mwyn cyflawni'r nod hwn. Wrth weithio ar y dull gweithredu hwn bydd yn bwysig ystyried "gwneud dim niwed" a chreu canlyniadau anfwriadol i'r grŵp hwn.
- Codwyd y pwnc bod cymorth i'r rhai nad oes ganddynt ganiatâd i fod yn y wlad yn fater gwahanol o safbwynt gwleidyddol. Yn Ffrainc, cynigir llety argyfwng sylfaenol yn yr achosion hyn.
- Cyfeiriodd aelodau o'r Panel at y posibilrwydd y gallai gwasanaethau cymdeithasol gynnig cymorth i'r rhai hynny nad ydynt wedi cael caniatâd i fod yn y wlad, yn enwedig unigolion â phlant nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Os nad ydynt yn gymwys (heb hawl i gyllid cyhoeddus, lloches) gall cymorth ag anghenion gofal fod ar gael drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Gofynnodd aelod o'r Panel tybed a allai'r gwasanaethau cymdeithasol edrych ar gost cymwysiadau a gwneud trefniadau i deithio i'r wlad y mae unigolyn yn hanu ohoni. Neu a allai Cyngor barhau â chymorth tra byddai cais yn cael ei benderfynu. Fodd bynnag, nodwyd y gallai hyn olygu bod y Swyddfa Gartref yn dod i wybod am y ceisydd, a byddai hynny'n arwain at alltudio.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Mae'r Panel yn cytuno ynglŷn ag argymell y dylai Llywodraeth Cymru ganfod ffordd o estyn cymorth yn gyfreithlon i'r rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Wrth geisio gwneud hynny, bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried "gwneud dim niwed" ac osgoi canlyniadau anfwriadol.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Hannah Fisher | Adborth i'r Panel ynglŷn â'r posibilrwydd o estyn cymorth yn gyfreithlon i grŵp o bobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. | I'w gadarnhau |

6. **Cytuno ar argymhellion yn ymwneud â llety dros dro ac addasrwydd**

**<u>Llety dros dro ac addasrwydd</u>**

Argymhellion posibl i'w hystyried gan y Panel – Llety Dros Dro ac Addasrwydd

***1.*** *Dylai Llywodraeth Cymru geisio gwella'r trefniadau coladu data ar lety dros dro yng Nghymru, gan gynnwys manylion am hyd arhosiad a mynediad at lety dros dro ymhlith grwpiau â nodweddion gwarchodedig.*

*a*

***2.*** *Dylai Llywodraeth Cymru geisio proffilio argaeledd ac addasrwydd llety dros dro ledled Cymru. Dylai ymarfer proffilio o'r fath geisio hwyluso dull cydweithredol a rhanbarthol o ymdrin â lleoliadau llety dros dro sy'n diwallu angen y ceisydd yn y ffordd orau. Dylai'r ymarfer proffilio hefyd fod yn gyson â'r symudiad cenedlaethol tuag at ddull ailgartrefu cyflym; bydd ystyried sut y mae'r stoc bresennol o letyau dros dro yn cysylltu â Chynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn hollbwysig.*

*a*

***3.*** *Dylai Llywodraeth Cymru geisio adolygu pa mor effeithiol yw'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wrth ariannu cyflenwad priodol o stoc dai.*

*a*

***4.*** *Mae'r Panel yn disgwyl am bapur cyngor cyfreithiol arall, ond mae'n bosibl y bydd yn gwneud argymhellion ar:*

***a)*** *Ymestyn y Gorchymyn Addasrwydd i ymdrin â rhagor o safonau gofynnol:*

*Ym mhob llety dros dro dylai'r safonau hyn gynnwys*:

***i.*** *Dealltwriaeth o'r hyn y mae'r ceisydd yn ei weld fel ei anghenion pwysicaf*
***ii.*** *Asesiad o anghenion cymorth*
***iii.*** *Faint o le sy'n dderbyniol fel lle sy'n rhesymol ar gyfer aelodau o deulu a phlant*
***iv.*** *Lleoliad, gan ystyried; mynediad at wasanaethau, agosrwydd at ysgolion, diogelwch, gofynion prawf, a risg o gam-drin neu gamfanteisio, agosrwydd at rwydweithiau cefnogi (boed yn deulu neu'n rhwydweithiau wedi'u sefydlu eu hunain)*
***v.*** *Hygyrchedd ffisegol*
***vi.*** *Fforddiadwyedd*
***vii.*** *Ffactorau Iechyd a Diogelwch (e.e., llwydni, gwres canolog, awyru ac ati)*
***viii.*** *Cyfathrebu rheolaidd, ynglŷn â'r amserlen ar gyfer symud ymlaen i lety sefydlog*

*Mewn llety cynullol/ llety a rennir dylai'r safonau gofynnol hyn gynnwys, yn ychwanegol at yr uchod*:

***i.*** *Gwaharddiad pendant yn nodi na fydd neb byth yn gorfod rhannu ystafell wely â rhywun ar wahân i bartner/aelod o'r teulu mewn unrhyw fath o lety dros dro*
***ii.*** *Diogelwch a llesiant – pobl ddim yn cael eu lleoli mewn mathau o letyau sy'n anniogel neu a allai amharu ar eu hadferiad*
***iii.*** *Mynediad at gyfleusterau coginio a golchi dillad*
***iv.*** *Pa mor rhesymol yw rheolau tŷ (e.e., teledu cylch cyfyng)*

*a*

***b)*** *Rhagor o gyfrifoldebau deddfwriaethol i awdurdodau lleol i gyfathrebu yn rheolaidd â cheiswyr ynglŷn â'r canlynol:*

***i.*** *Cynnydd eu cais am lety sefydlog a'r amserlen ddisgwyliedig*
***ii.*** *Eu hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau*

*iii. Cymorth eiriolaeth a allai fod ar gael i'r ceisydd*
*iv. Adolygu addasrwydd llety.*

*A*

*c) Tynhau'r broses adolygu addasrwydd 56 diwrnod*

*A*

*d) Cryfhau darpariaethau er mwyn nodi'n glir y gall unigolyn fod "yn ddigartref gartref" heb effeithio ar ei hawliadau digartrefedd*

*A*

*e) Gwella'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar drawma wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd drwy:*

*i. Gysylltu addasrwydd â Chynlluniau Tai Personol.*
*ii. Mynnu bod awdurdodau lleol yn ystyried rhestr o bwyntiau yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd llety i unigolyn.*
*iii. Cynnwys rhwymedigaeth ddeddfwriaethol fel bod awdurdodau lleol yn gorfod ystyried hanes a phrofiadau ceisydd wrth benderfynu ynglŷn ag addasrwydd llety i unigolyn.*
*iv. Creu pwyslais deddfwriaethol cryfach ar ystyried barn y ceisydd wrth benderfynu a yw llety yn addas i unigolyn.*
*v. Cryfhau canllawiau, gan gynnwys ehangu'r diffiniad o gam-drin a chamfanteisio fel bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ystod ehangach o anghenion diogelu a allai fod gan geisydd unigol. Er enghraifft, y rhai sy'n ceisio ymbellhau oddi wrth rwydweithiau sy'n niweidiol i'w hadferiad.*

*5. Gallai'r Panel ddewis argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyhoeddi canllawiau ar 'reolau tŷ' a threfniadau eraill mewn llety dros dro a llety â chymorth, yn enwedig mewn mathau cynullol o lety o'r fath, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau y gwyddys eu bod yn achosi rhwystrau mynediad neu a allai fod yn niweidiol i les preswylwyr, e.e. polisïau dim anifeiliaid anwes; cyrffyw; defnydd o deledu cylch cyfyng, taliadau gwasanaeth; polisïau ôl-ddyledion rhent; polisïau eithrio, polisïau yn ymwneud ag euogfarnau blaenorol, ac yn y blaen. Dylid llunio canllawiau o'r fath yng nghyd-destun dull gweithredu strategol ehangach o ymdrin â dyfodol llety dros dro a llety â chymorth yng Nghymru.*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Rhedodd y Panel allan o amser yn y cyfarfod i gynnal trafodaeth lawn ar yr argymhellion hyn, ac roedd hefyd yn ymwybodol bod nodyn cyngor cyfreithiol yn y maes hwn yn cael ei ddrafftio i helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y drafodaeth. Cytunwyd y byddai cyfarfod atodol ychwanegol yn cael ei drefnu i drafod y materion ymhellach.
- Er hyn, nododd y Panel y byddai angen argymhelliad yn ymwneud â phroffilio argaeledd a stoc llety ledled Cymru, gan gynnwys llety dros dro. Nodwyd, yng nghyd-destun y symud tuag at ailgartrefu cyflym, y byddai angen i broffilio o'r fath ystyried yr angen am gydbwysedd rhwng llai o letyau dros dro a mwy o letyau sefydlog yn yr hirdymor.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Trefnir cyfarfod atodol i drafod argymhellion yn y meysydd hyn yn fanwl, gan gymryd y bydd modd elwa ar gyngor cyfreithiol sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.
- Er hyn, bydd argymhellion yn y maes hwn yn cael eu hategu gan argymhelliad clir ynglŷn â'r angen i broffilio'r stoc dai ledled Cymru, gan gynnwys llety dros dro, ac i ystyried sut y mae hyn yn cysylltu â chyd-destun ailgartrefu cyflym.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Liz Davies CB | Cyngor cyfreithiol i'w roi ar addasrwydd a llety dros dro yn dilyn y cyfarfod ar 26.01.23. | Ganol Chwefror |

| | | |
|---|---|---|
| Abi Renshaw | Sicrhau rhagor o gyfarfodydd Panel atodol yn y dyddiadur er mwyn parhau â'r drafodaeth fanwl, a chadarnhau argymhellion y Panel ar gyfer y dyfodol. | Dechrau Mawrth |

7. **Trafodaeth ar y camau nesaf ar gyfer dyraniadau**

**Dyraniadau**

Argymhellion posibl i'r Panel eu hystyried – dyraniadau

***1. Gallai opsiynau i gryfhau dyrannu tai i aelwydydd digartref gynnwys:***

- ***a)*** *Rhannu ymarfer da/cyhoeddi canllawiau.*

  *a/neu*
- ***b)*** *Newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio, yn fwyaf penodol i gynnwys safonau gofynnol ar gyfer dyraniadau. Byddai angen ystyriaeth bellach i fanylion y safonau gofynnol hynny.*

  *a/neu*
- ***c)*** *Ymestyn y ddyletswydd i "gydweithredu" ag awdurdodau lleol ar ddyraniadau er mwyn darparu enghreifftiau mwy penodol.*

  *a/neu*
- ***d)*** *Cyflwyno deddfwriaeth debyg i adran 5 yn yr Alban, fel bod awdurdodau lleol yn gallu mynnu bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ailgartrefu achosion wedi'u hatgyfeirio sy'n ddigartref yn statudol.*

  *a/neu*
- ***e)*** *Cynyddu canllawiau statudol ynglŷn â pholisïau dyrannu y gwyddys eu bod yn achosi rhwystrau, e.e., polisïau dim anifeiliaid anwes, ôl-ddyledion rhent ac ati.*

  *a/neu*
- ***f)*** *Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd yn amlinellu disgwyliadau ynglŷn â dulliau dyrannu tai i aelwydydd digartref.*

  *a/neu*
- ***g)*** *Argymhelliad i adolygu casglu data ar ddyraniadau.*

  *a/neu*
- ***h)*** *Canllawiau pellach ynglŷn â'r diffiniad o "ymddygiad annerbyniol" a'r cymorth a ddarperir i geiswyr o'r fath.*

***2.*** *Efallai y byddai'r Panel yn hoffi ystyried, fel â bwriadoldeb, a ddylid cael newid deddfwriaethol i helpu i ddiogelu rhag "cymhellion gwrthnysig." Er enghraifft, gellid cynnwys cymal fel nad yw aelwydydd y canfyddir eu bod yn camddefnyddio'r system ddigartrefedd 'yn fwriadol' yn cael unrhyw ffafriaeth ychwanegol wrth ddyrannu tai cymdeithasol oherwydd eu statws digartref statudol. Ni fyddai'r prawf hwn yn effeithio ar unrhyw hawliadau eraill sy'n gysylltiedig â digartrefedd.*

**Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu codi a'u trafod gan y Panel:**

- Eglurodd y Cadeirydd fod cydnabyddiaeth o gryfder y teimlad yn y maes hwn a bod angen ystyriaeth bellach.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ymhellach â chymdeithasau tai yn y cyswllt hwn, a bydd y Panel yn dychwelyd i gael trafodaeth lawnach am ddyraniadau ac argymhellion posibl yn arwain ymlaen o'r gwaith hwn.
- Ailddatganodd y cynrychiolydd Cymdeithasau Tai fod ewyllys da ac ymarfer da yn y maes hwn, a holodd a oes angen deddfwriaeth.
- Roedd aelodau eraill o'r Panel o'r farn y byddai deddfwriaeth yn cadarnhau'r ymarfer da hwn ac na fyddai'n gwneud dim drwg i'r arferion da sy'n bodoli'n barod.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- Cytunodd y grŵp i drefnu cyfarfod ychwanegol i drafod dyraniadau gan fod rhagor o waith yn cael ei wneud a bod Llywodraeth Cymru yn ceisio ymgynghori mwy yn y maes hwn.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Abi Renshaw | Sicrhau rhagor o gyfarfodydd Panel atodol yn y dyddiadur er mwyn parhau â'r drafodaeth fanwl, a chadarnhau argymhellion y Panel ar gyfer y dyfodol. | Dechrau mis Mawrth |
| Hannah Fisher | Hysbysu'r Panel pan fydd y digwyddiad dyraniadau wedi cael ei gadarnhau. | Diweddaru mewn cyfarfod ar 03.03.23 |

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom dydd Gwener, 3 Mawrth 2023.**